

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 19 Ionawr, 2023 (Bore)

YN BRESENNOL: Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Neville Evans, Douglas Fowlie, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Alwen Watkin, Arfon Wyn

Aelodau Portffolio

Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth), Gary Pritchard (Aelod Portffolio Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuencid), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer).

Aelodau'r Pwyllgor Sgrïwtini Partneriaeth ac Adfywio ac Aelodau Eraill y Cyngor (drwy wahoddiad)

Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Gwilym O. Jones, Euryrn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret Roberts, Ken Taylor

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Rheolwr Sgrïwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones
Cynghorwyr Glyn Haynes, John I Jones, Liz Wood
(gwahoddedigion)

HEFYD YN BRESENNOL: Mr Rhys Davies a Mrs Sharon Warnes (Aelodau'r Pwyllgor Safonau (yn bresennol fel arsylwyr), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth)

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd 22 Tachwedd, 2022, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3 GOSOD CYLLIDEB 2023/24 (CYLLIDEB REFENIW) - CYNIGION DRAFFT CYCHWYNNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgrwtini ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer proses gosod cyllideb 2023/24, ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau ar gyfer Sgrwtini o ran gwerthuso cynigion cyllideb referniw cychwynnol y Pwyllgor Gwaith. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ionawr, 2023 yn gosod y gyllideb referniw dros dro am 2023/24 wedi'i atodi o dan Atodiad 1.

Wrth gyflwyno'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2023/24, dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmer fod y gyllideb arfaethedig o £171.438m yn cynrychioli cynnydd yn y rhanbarth o £14m yn fwy na chyllideb y flwyddyn flaenorol, gyda chwyddiant yn elfen bwysig o hyn, sy'n her barhaus i'r Cyngor a thrigolion. Er bod y setliad ariannu dros dro ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr, 2022 yn well na'r hynny a ddisgwyliwyd ar gyfer Ynys Môn, mae bwloch ariannu o £5.396m (cyn unrhyw newid i'r Dreth Gyngor) yn 2023/24. Ystyriwyd sawl opsiwn i bontio'r bwloch er mwyn cyrraedd y gyllideb arfaethedig, gan ystyried lefel y gwariant nesaf yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru, ac opsiynau sy'n gysylltiedig â lefel y Dreth Gyngor. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio cael cydbwysedd rhwng lleihau gwasanaethau a chynyddu'r Dreth Gyngor, sy'n ddull a gefnogir yn gyffredinol gan ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a adroddir arno ar wahân i'r cyfarfod hwn. Os ariennir y diffyg ariannol drwy'r Dreth Gyngor yn unig, golyga hyn y bydd angen cynyddu'r Dreth Gyngor 12%. Er mwyn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor, byddai angen defnyddio arian wrth gefn y Cyngor ei hun, neu ddefnyddio arbedion y gyllideb referniw. Amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor oddeutu £14m o arian wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Cedwir £9m ohono yn unol â pholisi cyffredinol y Cyngor i gadw 5% o'r gyllideb referniw net fel y lefel sylfaenol o falansau, sy'n gadael £5 miliwn y gellid ei ddefnyddio i gau'r bwloch ariannu. Er bod hynny'n opsiwn, ni chredir y byddai'n briodol defnyddio'r arian wrth gefn sydd ar gael yn 2023/24 o ystyried nad yw'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2024/25 a 2025/26 yn galonogol. Yn hytrach, awgrymir defnyddio dim ond rhan o'r arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2023/24. Mae'r gyllideb sy'n cael ei chynnig yn cyfuno arbedion o £1.393m, defnyddio £1.758m o arian wrth gefn y Cyngor a chynyddu'r Dreth Gyngor o 5%. Cynigir hefyd y bydd y premiwm ar ail dai yn codi o 50% i 75% yn unol â pholisi'r Pwyllgor Gwaith i gynyddu'r ffi dros gyfnod o amser. Er gwaethaf y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, mae'r dreth gyngor ar Ynys Môn ymhlith y cyfraddau isaf yng Nghymru, ac yn seiliedig ar wybodaeth hyd yma, y gyfradd hon fydd yr isaf yng ngogledd Cymru yn 2023/24.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 er bod y sefyllfa ariannol yn llawer gwell na hyn a ragwelwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, mae nifer o risgiau ariannol nad ydynt wedi cael eu datrys, neu y cyffyrddwyd arnynt yn rhannol o fewn y gyllideb o ran chwyddiant a'i effaith bosibl ar ddyfarniadau tâl a chostau eraill y Cyngor. Maent wedi'u hamlinellu yn adran 6 yr adroddiad. Mae staff Llywodraeth leol wedi dod i gytundeb ynghylch y cynnig tâl ar gyfer 2022/23 a all leddfu'r pwysau ar hawliad tâl 2023/24. Tra byddai'n rhaid i unrhyw gynnydd sy'n uwch na'r 3.5% a ddarparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb dros dro gael ei gyllido allan o arian wrth gefn y

y Cyngor, byddai rhoi darpariaeth uwch i mewn i'r gyllideb yn golygu codiad uwch yn y Dreth Gyngor. Mae risgiau eraill yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, a all arwain at fwy o alw am wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2023/24, yn ogystal â gostyngiad posibl yn incwm y Cyngor o wasanaethau hamdden a/neu feysydd parcio'r Cyngor, wrth i bobl dorri i lawr ar wariant dewisol. O ran arian wrth gefn, bydd unrhyw orwariant yn 2022/23 neu 2023/24 yn gostwng balansau cyffredinol y Cyngor ymhellach. Dywedodd Swyddog Adran 151, yn ei farn broffesiynol, mae'r gyllideb arfaethedig yn adlewyrchiad deg o'r costau sy'n wynebu'r Cyngor yn 2023/24, ac mae'n bodloni'r gofynion statudol o ran bod yn gyllideb gytbwys.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, fod y Panel wedi cwrdd ar 12 Ionawr, 2023 i ystyried y cynigion, a bod y Panel o'r farn bod y rhagdybiaethau a wnaed yn rhai cadarn, bod y camau ar gyfer cau'r bwlch yn osgoi toriadau pellach i wasanaethau, a bod y gyllideb arfaethedig yn deg yn gyffredinol.

Wrth ystyried y cynigion cyntaf ar gyfer y gyllideb, fe aeth y Pwyllgor ati i drafod y materion canlynol -

- A oedd y cynigion yn ymateb yn briodol i'r pwysau ar wasanaethau a'r heriau sy'n eu hwynebu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyllidebau ddrafft yn cynnwys rhagor o ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau Plant, Oedolion a Digartrefedd fel y meysydd hynny sy'n wynebu'r pwysau mwyaf oherwydd y galw am y gwasanaethau. Er na ellir rhagweld union lefel y galw, mae'r gyllideb yn cynrychioli'r asesiad gorau o'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni costau Cyngor, a beth yw'r cynnydd mewn galw.

- A all y cynigion gael effaith niweidiol ar drigolion Ynys Môn, neu unrhyw grwpiau a warchodir, ac a ellir cymryd unrhyw gamau i liniaru'r effaith hon.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cyllideb 2022/23 yn cynnwys buddsoddiad o £700k ar gyfer gwasanaethau addysg; nid yw'r gwasanaeth wedi defnyddio'r cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn, ac mae'r buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ohirio nes bo'r sefyllfa ariannol yn gwella a phan fydd y buddsoddiad yn fforddiadwy. Mae'r cynnydd chwyddiannol yng nghyllidebau ysgolion hefyd yn cael ei gapio i 10%; fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y cynigion hyn yn effeithio ar unrhyw grŵp penodol. Yn yr un modd, mae gweddill y gyllideb yn ariannu'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y rheiny a ddarperir ar gyfer y grwpiau mwyaf bregus o fewn cymunedau'r Ynys. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn llwyr ymwybodol o'r effaith mae'r argyfwng costau byw yn ei gael ar gymunedau, a bod llunio'r gyllideb yn gofyn am bwysu a mesur. Er na fydd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn effeithio'n niweidiol ar grwpiau penodol o bosib, mae'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion yn ystyrlon o'r argyfwng presennol.

- A yw'r cap chwyddiannol ar gyllideb ysgolion, sy'n gyfwerth â thoriad, yn peri pryder i ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd y cynigion yn cael eu hystyried gan y Fforwm Ysgolion ym mis Chwefror. Fodd bynnag, dylid nodi fod y Gyllideb Ysgolion yn cynyddu gymaint â £4.3m neu 10.3%. Mae ariannu dyfarniad tâl athrawon ar gyfer 2022/23 hefyd yn cael ei drafod gan ei fod yn uwch na'r ddarpariaeth a wnaed ar ei gyfer y gyllideb. Mae'n debygol y bydd y gost ychwanegol ar gyfer dyfarniad tâl athrawon yn cael ei ariannu gan gyllideb ganolog y Cyngor, yn hytrach na chyllidebau ysgolion, sy'n golygu y bydd ysgolion ar eu hennill o £1m eleni, er bod y cynnydd chwyddiannol yn cael ei gapio flwyddyn nesaf. Bydd effaith y cap ar ysgolion yn amrywio yn dibynnu ar lefel yr arian wrth gefn sydd gan bob ysgol. Mae'r ffigyrau drafft wedi cael eu hanfon ymlaen at bob ysgol, ac ar hyn o bryd mae penaethiaid yn eu hadolygu cyn i bob ysgol osod ei chyllideb ar gyfer 2023/24.

Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd fod y gyllideb i ysgolion wedi cael ei gwarchod am nifer o flynyddoedd; mae ysgolion wedi cael cyfle i gynyddu eu harian wrth gefn yn ystod y

blynyddoedd diwethaf, ac mae gofyn iddynt ddangos fod ganddynt gynlluniau ar gyfer gwario'r gweddill. Felly, disgwylir y byddant yn defnyddio'r arian wrth gefn yn ystod y blynyddoedd nesaf i ariannu unrhyw fwllch.

- Pwysigrwydd cyllid grant a'r goblygiadau petai un neu fwy grant yn cael eu tynnu neu bod y Cyngor yn aflwyddiannus yn ei gais am grant.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell ariannu ar gyfer cyllid grant ychwanegol, ac mae rhai grantiau gan Lywodraeth Cymru'n cael eu dyfarnu'n flynyddol - ar gyfer addysg, tai a rheoli gwastraff, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu beth a ariennir drwy grantiau a beth a ariennir gan gyllideb graidd y Cyngor o ran y gwasanaethau hynny. Os bydd y grant yn lleihau, mae'n fwy anodd cyfyngu'r gwasanaeth. Mae rhagor o gyllid grant yn dod ar ffurf grantiau penodol. Cânt eu clustnodi ar gyfer gweithgarwch penodol, ac fel arfer maent yn pahau am amser penodol sy'n ei gwneud hi'n haws i gynllunio gwasanaethau a'r gweithlu ar eu cyfer. Mae rhai o'r grantiau hyn yn cael eu neilltuo ar sail gystadleuol heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant; pan fydd y grantiau hynny'n dod i ben, bydd y gwasanaeth/prosiect hefyd yn cyrraedd ei derfyn.

- Defnyddio £172.438m o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor i gydbwyso cyllideb 2023/24, a sut fyddai hynny yn ymddangos i'r cyhoedd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd lefel bresennol balansau cyffredinol nas dosbarthwyd gan y Cyngor oddeutu £10.2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda gwerth £4m ychwanegol o arian wrth gefn a glustnodwyd, a ellir ei ddychwelyd i falansau cyffredinol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod lleiafswm y balans cyffredinol fel 5% o'r gyllideb net refeniw; mae hynny'n £8.7m ar gyfer 2023/24 sy'n gadael £5.5m posibl ar gael i helpu i ariannu'r gyllideb refeniw dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. Er y gellid defnyddio'r £5.5m yn llawn i ariannu bwllch y gyllideb yn 2023/24, byddai hyn yn creu risg ariannol i'r Cyngor, a gallai arwain at heriau ariannol yn y dyfodol pe byddai angen ariannu unrhyw wariant annisgwyl sylweddol, neu ariannu gorwariant refeniw'r dyfodol. Ystyrir bod cadw lefel ddigonol o arian wrth gefn yn elfen hanfodol o wytnwch a sefydlogrwydd ariannol.

- Forddiadwyedd y cynnydd yn y Dreth Gyngor i'r rheiny ar incwm isel, a'r ffordd mae'r Cyngor yn hysbysebu'r cymorth sydd ar gael mewn achosion o'r fath.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gyllideb yn neilltuo cyllid ar gyfer cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor gan y Cyngor, sy'n cael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor, drwy'r Ganolfan J. E. O'Toole yng Nghaergybi a sefydliadau eraill sy'n cynnig cyngor ar lesiant, megis Cyngor ar Bopeth.

- A yw'r cynnydd arfaethedig o 50% i 75% yn y premiwm ar gyfer ail dai yn gynydd teg, a sut all y Cyngor sicrhau bod yr incwm o'r ffynhonnell hwn yn parhau'n gynaliadwy.

(Bu i'r Prif Weithredwr ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu ar yr adeg hon, a gadawodd y cyfarfod)

Cafodd y Pwyllgor ragor o wybodaeth gefndirol am y premiwm ail gartref ar Ynys Môn, sydd wedi cynyddu'n gynyddrannol ers ei gymeradwyo gyntaf a'i osod yn 25% o lefel y Dreth Gyngor. Fel mae'r premiwm wedi codi i'r lefel bresennol o 50% mae nifer yr ail dai sy'n trosglwyddo i gyfradd busnes wedi cynyddu hefyd, ac er bod nifer yr ail dai wedi gostwng am gyfnod, mae wedi codi i 2,700. Mae'r rhif hwn wedi aros oddeutu'r un fath ers i'r premiwm godi i 50%, ac ers tynhau'r rheolau ar gyfer trosglwyddo i gyfraddau busnes. Y nod yw ceisio bod yn deg â pherchnogion ail dai ond gan hefyd cael effaith o ran rheoli'r mater. Fe all cynnydd mawr neu gynydd disymwth yn y premiwm ysgogi perchnogion ail dai i geisio osgoi talu'r premiwm yn gyfan gwbl, a hynny drwy gofrestru eu hail dai fel eu prif gartref preswyl.

Cafodd Aelodau eraill y Cyngor, a'u gwahoddwyd i'r cyfarfod, gyfle i fynegi eu barn ar gynnigion y gyllideb. Siaradodd y Cynghorydd Jeff Evans, aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini

Partneriaeth ac Adfywio am ei brofiad o weithio gyda phobl fregus dan anfantais ar yr Ynys dros nifer o flynyddoedd. Gan gyfeirio at yr argyfwng costau byw, dywedodd fod y cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor yn llawer rhy uchel ac yn annerbyniol, ac i lawer o bobl sy'n ei chael hi'n anodd, mae'r cynnydd wythnosol o £1.32 ar gyfer eiddo Band D yn ddigon i brynu peint o laeth. Roedd hefyd o'r farn bod y ddarpariaeth tâl o 3.5% yn afrealistig dan yr amgylchiadau, gyda nifer o weithwyr y sector cyhoeddus yn streicio am gyflog mwy er mwyn ymdopi â chwyddiant. Awgrymodd y dylid defnyddio arian wrth gefn y Cyngor yn fwy eang na'r hyn a gynigiwyd er mwyn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 3.5% neu 4%.

Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant (Gwasanaethau Cyhoeddus) ac leuenctid fod diogelu'r bobl fwyf bregus yn gonsyrn i bawb, ond bydd codi'r Dreth Gyngor yn sicrhau bod y gwasanaethau y mae'r bobl fregus hynny'n dibynnu arnynt yn cael eu cynnal. Pe byddai'r setliad terfynol yn caniatáu gostyngiad yn y cynnydd yn y Dreth Gyngor, yna byddai hynny'n cael ei ystyried.

Cyfeiriwyd hefyd at y cynnig llwyddiannus i adfywio Canol Tref Caergybi dan nawdd Cronfa Ffyniant Bro'r DU, a thrafodwyd gallu'r Gwasanaeth Datblygiad Economaidd i gyflawni'r gwaith o ran adnoddau ac amser.

Ar ôl ystyried y cynigion ar gyfer cyllideb refeniw drafft 2023/24, ac ar ôl cwestiynu'r Aelodau Portffolio a Swyddogion ar eu heffaith a'u goblygiadau, roedd aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon bod y cynigion yn deg a rhesymol, ac yn cyrraedd cydbwysedd derbyniol rhwng codi'r Dreth Gyngor, defnyddio arbedion a defnyddio arian wrth gefn y Cyngor.

Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynigion cyllideb ddrafft 2023/24, sy'n gyllideb o £172.438m, ac sy'n cynnwys cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, defnyddio £1.758m o falansau cyffredinol a chodi'r premiwm ar ail dai o 50% i 75%, yn deg a rhesymol, ac felly'n cefnogi'r Cyngor Sir i osod cyllideb gytbwys.

4 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Bu i'r Cynghorydd Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, adrodd ar ganlyniad cyfarfod y Panel ar 12 Ionawr, 2023, fel y cyfeiriwyd ato yn y naratif ar gyfer eitem 3 uchod.

5 DATBLYGIAD BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNOR 2023-2028

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn cynnwys canlyniad y broses ymgysylltu ac ymateb trigolion i'r ymgynghoriad a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yng Nghynllun Drafft 2023-28 y Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Bodhad Cwsmer yr adroddiad, a oedd yn cynrychioli pen llanw gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori gyda staff, trigolion, partneriaid a rhanddeiliaid, sydd wedi bod ar waith ers dechrau 2022, pan gwblhaodd y Cyngor ei ymarferiad ymgysylltu cyntaf rhwng mis Chwefror a Mawrth 2022. Y bwriad oedd ceisio deall beth roedd trigolion Ynys Môn yn gobeithio y byddai Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio arno ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bu i ganlyniad yr ymarferiad ymgysylltu hwn, a gwaith datblygu dilynol, adnabod chwe blaenoriaeth strategol, ac yna cynhaliwyd ymgynghoriad yn eu cylch o 20 Medi tan 14 Tachwedd 2022. Mae cyfradd yr ymatebion ar gyfer y canfyddiadau'n rhoi lefel hyder o 95% i'r Cyngor, gyda mwy nag 8 o bob 10 ymatebwr yn cytuno gyda'r blaenoriaethau strategol drafft.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod cael dros 2,500 o ymatebwyr yn tystiolaeth i ba mor effeithiol a chynhwysfawr bu'r dull ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y flwyddyn o ran casglu gwybodaeth gan drigolion yr Ynys.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, bu i'r Pwyllgor drafod y materion canlynol -

- A ellir cynnig sicrwydd y body broses ymgynghori ac ymgysylltu yn gynhwysfawr ac yn bodloni gofynion statudol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y canlyniad yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor o ran ymgynghori ac ymgysylltu dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cydnabod pwysigrwydd rhoi llais i bobl o fewn proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae wedi'i chynllunio a'i rhoi ar waith ar ôl sefydlu Bwrdd Ymgynghori ac Ymgysylltu Corfforaethol rhai blynyddoedd yn ôl gyda Medrwn Môn, ac mae hefyd yn ganlyniad gwaith ar Gynllun blaenorol y Cyngor. Mae'n cyd-fynd ag egwyddor datblygiad cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd o gynnwys y cyhoedd ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Mae hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaed fel rhan o Llundio Lleuedd a'r hybiau cymunedol. Mae'r adroddiad yn dangos bod y Cyngor wedi creu'r amgylchedd y mae pobl yn barod i gyfrannu ynddo. Er mwyn sicrhau cymaint o gynwysoldeb â phosibl, mabwysiadwyd ffyrdd gwahanol o ymgysylltu, gan gynnwys ar-lein, digidol, wyneb yn wyneb a drwy ddsbarthu copïau caled o'r arolwg yn ogystal â fersiwn hawdd i'w darllen i sefydliadau'r Cyngor, gyda'r broses yn cael ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn datganiadau i'r wasg, ar y radio a thrwy e-bost at bartneriaid.

- I ba raddau mae'r blaenoriaethau strategol arfaethedig yn berthnasol a chyraeddadwy heddiw.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y broses wedi dangos bod y blaenoriaethau'n berthnasol fel camau gweithredu sy'n cefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor a'i ddyheadau ar gyfer yr Ynys. Mae'n fwy anodd dweud gyda sicrwydd a fyddant yn gyraeddadwy yn ystod y pum mlynedd nesaf, sef cyfnod y Cynllun, o gofio bod amgylchiadau'n gallu newid yn gyflym. Er hyn, mae gwaith sylweddol wedi bod yn digwydd yn y cefndir gan gynnwys her gan Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith er mwyn rhoi sicrwydd y bydd y meysydd gweithredu fydd yn cael eu hadnabod yn arwain y Cyngor ymlaen i gyflawni'r blaenoriaethu hynny, ac y byddant hefyd yn helpu creu fframwaith adrodd a monitro sy'n tryfalu â dulliau rheoli perfformiad y Cyngor, fel y gellir tracio cynnydd a chymryd camau ychwanegol a/neu wahanol os oes raid.

- Sut bydd y Cyngor yn sicrhau cyd-gynllunio ac aliniad rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a gwireddu'r blaenoriaethau strategol dros y pum mlynedd nesaf.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ceisio cynllunio cyllidebau'r Cyngor dros gyfnod o bum mlynedd, pan nad yw'r Cyngor yn gwybod faint o gyllid y bydd yn ei dderbyn yn 2024/25, yn heriol. Adolygir a diweddarir yr CATC yn flynyddol i fonitro sut mae'n cyd-fynd â chyflawniad Cynllun a blaenoriaethau'r Cyngor, a lle bo'n bosibl, bydd cyllid yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y blaenoriaethau hynny'n cael eu gwireddu. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn ddogfen allweddol yn narpariaeth y blaenoriaethau strategol. Mae sefyllfa cyllid cyfalaf yn fwy tynn na chyllid refeniw o ran yr adnoddau sydd ar gael i alluogi'r Cyngor i wneud yr hyn mae'n ei ddymuno, ac mae adnoddau cyfalaf bellach yn prynu llai am nad yw wedi 'dal i fyny' â chostau.

- Y risgiau allweddol mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth fynd ymlaen.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gallu ymateb i alw a chyflawni popeth mae'r Cyngor yn ei ddymuno yn heriol. Mae Cynllun y Cyngor yn ceisio darparu llwybr clir i'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf, ond mae'r gallu i'w wireddu yn dibynnu ar argaeledd adnoddau, sy'n gwneud y prosesau ariannol blynyddol yn fwy pwysig o ran sicrhau bod adnoddau y cal

eu cyfeirio i'r lleoedd cywir gan fanteisio ar gyfleoedd a lliniaru rhai o'r risgiau. Un o'r prif risgiau yw'r galw am wasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio; risg arall yw'r ansicrwydd ynghylch ariannu ar draws y sector cyhoeddus ac a yw'r cyllid mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn ddigon i'w alluogi i barhau i fodloni ei ddyletswyddau statudol. Mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid tymor hir hefyd yn risg ac yn rhwystr mewn cynllunio effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Ddogfen Darparu Flynyddol yn nodi beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni bob blwyddyn yn ystod Cynllun y Cyngor, ac mae'n adlewyrchiad o lwyddiant y Cyngor o ran gwneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau.

Ar ôl derbyn eglurhad pellach ynghylch trefn y broses ymgysylltu ac ymgynghori, ac ar ôl cael eu bodloni ynghylch priodoldeb y blaenoriaethau strategol, penderfynodd y Pwyllgor argymhell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith -

- **Bod y broses ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i chwblhau mor gynhwysol â phosibl yn 2022.**
- **Bod y blaenoriaethau strategol drafft ar gyfer Cynllun 2023-24 y Cyngor yn berthnasol, yn dilyn y broses ymgysylltu ac ymgynghori.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones
Cadeirydd**